

Cynllun Peilot UBI i Gymru

Ionawr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun Peilot UBI i Gymru

Ionawr 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Beth mae'r Pwyllgor wedi'i wneud?	5
Ein casgliadau	5
Beth sy'n digwydd nesaf?	6
1. Cefndir	7
Beth yw Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI)?	7
Dadl ynglŷn ag Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru	8
Cynllun peilot Llywodraeth Cymru – yr hyn a wyddom.....	9
Y setliad datganoli a'r Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru.....	9
Incwm Sylfaenol Cyffredinol o amgylch y byd.....	10
2. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor	11
Y ddeiseb	11
3. Casgliadau ac argymhellion.....	12
Y rhai sy'n gadael gofal	12
Rôl Llywodraeth y DU	12
Gwerthusiad.....	13
4. Deunydd darllen ychwanegol.....	15
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	16

Mae'r adroddiad hwn yn nodi argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor Deisebau, ac yn darparu lincs i'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb a ganlyn:

Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddylunio cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) yn ôl ardal ddaearyddol sy'n cynnwys plant, pobl gyflogedig, pobl ddi-waith a phensiynwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal.

Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddeall sut y byddai'r polisi'n effeithio ar Gymru pe bai'n cael ei gyflwyno yfory.

Rhagair y Cadeirydd

Yn ei Rhaglen Lywodraethu mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun peilot a fydd yn edrych ar effaith darparu incwm sylfaenol i grŵp o bobl.

Yn gynharach eleni, cyflwynodd cefnogwyr Incwm Sylfaenol Cyffredinol ddeiseb yn galw am ehangu'r cynllun peilot arfaethedig.

Beth mae'r Pwyllgor wedi'i wneud?

Fel Pwyllgor, gwnaethom benderfynu ystyried tystiolaeth ychwanegol gan gefnogwyr Incwm Sylfaenol Cenedlaethol yng Nghymru mewn ymgais i ddod i gasgliadau ynghylch sut y dylid cynnal y cynllun peilot ac a allai fod manteision i ehangu'r cynllun peilot fel y'i cynigir ar hyn o bryd, fel yr awgrymwyd gan y deisebydd

Nid yw'r ymchwiliad hwn, yn fwriadol, wedi ceisio plymio'n ddwfn i'r materion athronyddol sydd wrth wraidd y ddadl ynghylch Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Rydym wedi cyfyngu ein hunain i'r materion a godwyd yn y ddeiseb. Yn benodol, a fyddai manteision i ymestyn y cynllun peilot y tu hwnt i'r rhai sy'n gadael gofal, ac os felly, sut y gellid cyflawni hyn o fewn y setliad datganoli.

Ein casgliadau

Er nad yw holl Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi Incwm Sylfaenol Cyffredinol, credwn fod gan gynllun peilot ehangach y potensial i greu tystiolaeth gyfoethocach a mwy argyhoeddiadol i lunwyr polisiau'r dyfodol ei hystyried. Gall y dystiolaeth hon brofi bod Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn ffordd aneffeithlon o dargedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf – neu gall brofi fy marn fy hun bod y manteision a briodolir i arbrofion eraill, o ran llesiant a chanlyniadau economaidd, yn gyraeddadwy yma yng Nghymru. Y naill ffordd neu'r llall, mae potensial i ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr a sicrhau y gall y ddadl yng Nghymru symud y tu hwnt i fodelau academiaidd i drafodaeth sy'n seiliedig ar brofiad a chanlyniadau byd go iawn.

Mae rhinwedd i gynllun Llywodraeth Cymru i dargedu'r rhai sy'n gadael gofal – mae gwella canlyniadau i'r rhai sy'n gadael gofal yn syniad sy'n cael cefnogaeth yr holl Aelodau. Ond bydd angen i Weinidogion fod yn ofalus o ran sicrhau bod cynllun peilot ar raddfa fach, sy'n cynnwys grŵp o bobl y gall eu hamgylchiadau fod yn annodweddiadol, yn darparu data cadarn am effeithiau ehangach incwm sylfaenol (neu incwm sylfaenol cyffredinol) yng Nghymru.

I'r perwyl hwnnw, bydd gwerthuso'n allweddol – ac rydym yn gwneud nifer o argymhellion yn ymwneud â gwerthuso'r cynllun peilot.

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i wneud pob ymdrech i sicrhau cefnogaeth asiantaethau Llywodraeth y DU o'r cychwyn cyntaf, a thrwy gydol oes y cynllun peilot. Ni ddylai fod yn waeth ar y rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw gynllun peilot nag y byddai pe na byddent wedi cymryd rhan ynddo. Byddai'n tanseilio'r prosiect pe bai cyfranogwyr yn colli'r hawliau y maent yn eu hawlio ar hyn o bryd o ganlyniad uniongyrchol i ddiffyg cyfathrebu rhwng y ddwy lywodraeth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r Pwyllgor wedi anfon yr adroddiad hwn at Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu ei chynllun peilot arfaethedig. Rydym hefyd wedi gofyn yn ffurfiol am ymateb i'r materion a godwyd yn y ddeiseb, ac i'r argymhellion yn ein hadroddiad. Byddem yn disgwyl cael ymateb, a diweddariad cyffredinol ar gynnydd y cynllun peilot erbyn mis Mawrth 2022.

Bydd adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar y System Fudd-daliadau yng Nghymru hefyd yn ymddangos yn 2022. Mae wedi cymryd tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn ymwneud â threialu cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru, a heb amheuaeth, bydd ganddo gyfraniad diddorol i'w wneud.

Mae cynllun peilot Llywodraeth Cymru i fod i gael ei lansio ym mis Ebrill 2022. Rwy'n gobeithio y bydd yn gynllun sy'n nodi cam ymlaen o ran y ffordd yr ydym yn meddwl am incwm sylfaenol – ac yn un sy'n darparu tystiolaeth gadarn i lywio dadl yn y dyfodol ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Jack SARGEANT AS". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line extending from the end of the name.

Jack Sargeant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

1. Cefndir

Mae'r bennod hon yn nodi'r hyn a ddeallwn wrth Incwm Sylfaenol Cyffredinol, y ddadl wleidyddol ynghylch y mater yng Nghymru, a'r heriau a gyflwynir gan y setliad Datganoli i greu cynllun peilot ystyrlon yng Nghymru.

Beth yw Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI)?

1. Mae Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio nifer o wahanol gynigion lle byddai'r wladwriaeth yn darparu incwm i bob dinesydd, heb unrhyw amodau ynghlwm, a waeth beth fo'u hadnoddau eraill.¹
2. Er bod y diffiniad hwn yn cael ei dderbyn yn eang, mae amrywiaeth barn eang ynghylch ffurf taliadau o'r fath. Mae rhai yn dadlau y dylai Incwm Sylfaenol Cyffredinol fod yn ddigon i fyw arno ar ei ben ei hun; mae eraill yn cefnogi taliadau cynhwysol mwy cyfyngedig, ochr yn ochr â'r systemau nawdd cymdeithasol presennol.

Dadleuon o blaid ac yn erbyn Incwm Sylfaenol Cyffredinol²

Mae cefnogwyr Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn dadlau bod incwm sylfaenol:

- yn rhywbeth y mae gan bob dinesydd hawl iddo, a'i fod yn ddiogelwch rhag tlodi ac yn gwella iechyd a llesiant;
- yn gallu rhannu incwm cenedlaethol yn decach;
- yn gallu talu am lafur di-gyflog, megis gofalu;
- yn rhoi rhyddid i weithwyr ddewis opsiynau eraill, efallai mwy entrepreneuriaidd; a'i fod yn syml ac yn haws ei ddeall na systemau cymhleth nawdd cymdeithasol.

¹ Cyflwyno Incwm Sylfaenol Cyffredinol, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

<https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CDP-2020-0096/CDP-2020-0096.pdf> (PDF 243KB)

² Detholiad o erthygl Ymchwil y Senedd Beth all Incwm Sylfaenol Cyffredinol ei olygu i Gymru?,

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/beth-all-incwm-sylfaenol-cyffredinol-ei-olygu-i-gymru/>

Fodd bynnag, mae gwrthwynebwyr yn dadlau bod Incwm Sylfaenol Cyffredinol:

- yn hynod gostus (**nododd** y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y gallai Incwm Sylfaenol Cyffredinol llawn yng Nghymru gostio £35-40 biliwn);
- yn ddiwahân, felly mae arian hefyd yn mynd i'r rhai nad oes ei angen arnynt;
- yn cynrychioli newid sylweddol o systemau nawdd cymdeithasol presennol; ac
- yn gallu bod yn wrthanogaeth i bobl chwilio am gyflogaeth.

Dadl ynglŷn ag Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru

3. Ar 30 Medi 2020 trafododd a phasiodd y Senedd gynnig a gyflwynwyd gan Jack Sargeant yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Treial Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru. Roedd 28 pleidlais o blaid, 13 yn erbyn a 10 yn ymatal.

4. Roedd y cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru:

- a. i sefydlu treial Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru;
- b. i lobio Llywodraeth y DU am gyllid i sefydlu Incwm Sylfaenol Cyffredinol ledled Cymru.

5. Yn arwain at etholiad mis Mai 2021, sicrhodd y grŵp ymgyrchu UBI Lab Cymru addewidion i gefnogi cynllun peilot gan 105 o ymgeiswyr (etholwyd 25 ohonynt), ochr yn ochr ag ymrwymadau polisi ym maniffestos Plaid Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Werdd Cymru. Pasiodd pedwar cyngor – **yn Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Gwynedd – gynigion hefyd yn galw am gynnal cynlluniau peilot yn eu hardal leol.**

6. Ym mis Mehefin 2021 lansiodd Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Senedd y DU ymchwiliad i'r System Fudd-daliadau yng Nghymru. Bydd yr ymchwiliad eang hwn hefyd yn ymchwilio i oblygiadau posibl y cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gynnal.³ Mae'r ymchwiliad eisoes wedi casglu ystod eang o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno yn 2022.

7. Ar 29 Tachwedd, cyn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru adroddiad yr oedd wedi'i gomisiynu gan felin drafod annibynnol

³ <https://committees.parliament.uk/committee/162/welsh-affairs-committee/news/155872/mps-to-consider-benefits-system-in-wales-as-covid19-support-schemes-draw-to-cau/>

Autonomy dan y teitl **Dyfodol Teilwng i Gymru** (PDF 1.5MB). Mae'r adroddiad 200+ tudalen hwn yn edrych ar arbrofion rhyngwladol a sut y gallent gynnig gwersi i Gymru, ac mae hefyd yn nodi dau fodel ar gyfer cynllun peilot posibl – y ddau yn llawer ehangach na'r hyn a gynnigir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Cynllun peilot Llywodraeth Cymru – yr hyn a wyddom

8. Ym mis Hydref, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r cynllun peilot yn dechrau ym mis Ebrill 2022⁴ ac eglurodd fod y gwaith parhaus i ddatblygu'r cynllun peilot wedi cael ei lunio gan gyngor gan y 'Fforwm Pobl sy'n Gadael Gofal' a 'Gofal yng Nghymru'. Dywedodd y bydd y cynllun peilot yn rhoi "gwybodaeth werthfawr i ni ar gyfer y dyfodol am sut y gallai'r cysyniad o incwm sylfaenol fod yn berthnasol i grwpiau eraill yn ehangach ar draws poblogaeth Cymru."

9. Mewn datganiadau cyhoeddus mae'r Prif Weinidog wedi dechrau ei alw'n gynllun peilot Incwm Sylfaenol. Byddai'r cynllun peilot yn rhedeg am tua tair blynedd, bydd yn cynnwys tua 250 o bobl sy'n gadael gofal, a bydd yn seiliedig ar y 'cyflog byw go iawn'.

Y setliad datganoli a'r Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru

10. Ni fydd yn hawdd datblygu cynllun peilot effeithiol sydd o fewn y setliad datganoli. Dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (yn ei rôl flaenorol fel y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd) am dreialu cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol:

*"[...] na fyddai treial felly'n bosibl heb gydweithrediad gweithredol Llywodraeth y DU, a hynny oherwydd y rhyngweithio rhwng incwm sylfaenol cyffredinol a'r system dreth a budd-daliadau."*⁵

11. Y prif bryder yw, heb ddull trawslywodraethol y cytunwyd arno, y gallai unrhyw arian ychwanegol a roddir gan Lywodraeth Cymru mewn cynllun peilot arwain at gyfranogwyr - yn enwedig y rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol - yn colli budd-daliadau prawf modd a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

12. Yn y tymor hir, byddai gweithredu cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru yn llawer haws pe bai gweinyddiaeth lles wedi ei datganoli.

⁴ Cofnod y Trafodion, Senedd Cymru, 19 Hydref 2021, Paragraff 83

https://record.senedd.cymru/Cyfarfod_Llawr/12457#C382219

⁵ Rebecca Evans AS, Cofnod y Trafodion, Senedd Cymru, 30 Medi 2020, para 326. [GWIRIO arddull]

Incwm Sylfaenol Cyffredinol o amgylch y byd

13. Mae nifer o wledydd eraill wedi ymchwilio i opsiynau ar gyfer gweithredu cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol drwy astudiaeth beilot.

14. Cynhaliwyd Arbrawf Incwm Sylfaenol yn **y Ffindir** rhwng 2017 a 2018. Talwyd €560 y mis i 2,000 o bobl ddi-waith 25-58 oed. Canfu'r arbrawf fod yr effeithiau ar gyflogaeth yn fach, ond bod y derbynwyr yn fwy bodlon ar eu bywydau ac yn wynebu llai o straen meddyliol, a bod ganddynt ganfyddiad mwy cadarnhaol o'u lles economaidd.

15. Mae cynlluniau peilot wedi'u cynnal mewn nifer o daleithiau yng Nghaliffornia. Ym mis Gorffennaf 2021 **cymeradwyodd** deddfwyr California raglen incwm gwarantedig a ariennir gan y wladwriaeth sy'n galluogi gwladwriaethau a siroedd i wneud cais am arian o **gronfa o \$35 miliwn** i gefnogi cynlluniau peilot sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl ifanc sydd wedi gadael y system ofal, a mamau beichiog. Bydd y cynllun peilot yn para am bum mlynedd. O dan y cynlluniau, gall swyddogion lleol benderfynu ar y taliadau, y credir eu bod yn amrywio o \$500 i \$1,000. Ni fydd dim rheolau o ran sut y mae pobl yn gwario'r taliad.

16. Daeth astudiaeth ddichonoldeb helaeth yn yr Alban i'r casgliad y byddai treialu Incwm Sylfaenol Dinasyddion (CBI) yn ddymunol, ond yn amhosibl heb gydweithrediad pob lefel o lywodraeth.

*"This research has determined it is not currently feasible for any one level of government alone to deliver a pilot model of a CBI as described by the Steering Group. There would be substantive and complex legislative, technical and delivery changes required to ensure that a CBI interacts with the existing social security system in a way that avoids detriment to those on benefits and lowest incomes."*⁶

17. Dywedodd tystion wrth y pwyllgor y dylai Cymru ystyried astudiaeth yr Alban oherwydd mai hi yw'r wlad debycaf i Gymru, o ran ei pherthynas â'r DU.

⁶ www.basicincome.scot/_data/assets/pdf_file/0025/175372/Draft-Final-CBI-Feasibility_Exec-Summary-June-2020.pdf (PDF 1.1MB) Tudalen 3

2. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor

Mae'r bennod hon yn manylu ar hynt y ddeiseb, a gwaith y Pwyllgor o ran ymchwilio i sut i symud y ddeiseb yn ei blaen.

Y ddeiseb

- 18.** Agorwyd y ddeiseb ym mis Awst 2021, a chasglwyd 1,051 o lofnodion. Caeodd ar 2 Tachwedd 2021.
- 19.** Penderfynodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth a llunio adroddiad byr cyn diwedd 2021 gyda'r bwriad o ddylanwadu ar gynllun peilot arfaethedig Llywodraeth Cymru. I gyflymu ei waith, nid yw'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ymateb i'r materion a godwyd yn y ddeiseb (fel y byddai'n digwydd fel arfer).
- 20.** Cynhaliwyd y sesiynau tystiolaeth ar 15 Tachwedd 2021 (Panel 1), a 29 Tachwedd 2021 (Paneli 2 a 3). Mae rhestr o'r cyfranogwyr i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth, ac a fu o gymorth i lywio ein trafodaeth a'n casgliadau.

3. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r bennod hon yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru.

Y rhai sy'n gadael gofal

21. Bydd cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal,– fel y cynigir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi adborth gwerthfawr ar botensial cynllun o'r fath i wella'r cymorth i grŵp sy'n wynebu heriau sylweddol.

22. Fodd bynnag, gwybodaeth gyfyngedig fydd cynllun peilot tair blynedd o ddim ond 250 o bobl yn ei chynnig. Hefyd, ni fydd rhoi incwm sylfaenol i bobl sy'n gadael gofal yn unig yn dweud llawer wrthym am incwm sylfaenol cyffredinol.

23. Byddai sampl mwy yn rhoi canlyniadau mwy cadarn, ac yn sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith y derbynwyr.

24. Er mwyn i'r cynllun peilot fod yn effeithiol, roedd y tystion yn bendant ynglŷn â'r canlynol: Rhaid i daliadau fod yn warantedig, yn ddiamod, ac wedi'u talu i'r unigolyn (nid y cartref). Roedd y pwynt olaf hwn yn arbennig o bwysig ar gyfer grymuso menywod.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynyddu maint y cynllun peilot er mwyn darparu data mwy cadarn. Gellid gwneud hyn drwy ychwanegu grwpiau ychwanegol (fel yr awgrymwyd yn y ddeiseb).

Argymhelliad 2. Dylai cynllun peilot effeithiol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal gynnwys y rhai sy'n gadael gofal o ystod mor amrywiol â phosibl o gefndiroedd, lleoliadau ac amgylchiadau.

Argymhelliad 3. Rhaid i daliadau fod yn warantedig, yn ddiamod, ac wedi'u talu i'r unigolyn (nid y cartref).

Rôl Llywodraeth y DU

25. Byddai unrhyw ymgais i ehangu'r peilot, fel yr awgrymwyd yn y ddeiseb sy'n cael ei hystyried, yn gofyn am gydweithrediad Llywodraeth y DU ar ffurf yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Mae astudiaeth ddichonoldeb Llywodraeth yr Alban yn gwneud hyn yn glir.

26. Cadarnhaodd Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ei fod wedi agor trafodaethau gyda chyrff eraill.

*"Gallaf ddweud wrthyf fod amryw o drafodaethau wedi bod gyda chymheiriaid, a bod cysylltiad wedi'i wneud â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Nid wyf yn gwybod beth yw'r ymateb, ond yn amlwg caiff hwnnw ei rannu pan fydd gennym fwy o wybodaeth am hynny. Ond rydych yn llygad eich lle: er mwyn gwneud cynnydd gyda'r mater hwn, mae'n rhaid i'r rhai sy'n dal awenau grym eraill yn y maes hwn ymgysylltu o ddifrif â ni hefyd."*⁷

27. Cadarnhaodd staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 8 Rhagfyr, fod cyngor wedi'i ddarparu, a bod ymateb ffurfiol i gais gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddrafftio.

28. Yn yr un cyfarfod, dywedodd Gweinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau, David Rutley:

*"I have followed with interest some of the other witnesses that have come to the Select Committee on this particular point about UBI. To me, I just think it is not the best approach; it is not that well-judged."*⁸

29. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid gwneud pob ymdrech i geisio sicrhau cydweithrediad asiantaethau Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 4. Bydd y cynllun peilot yn gyfoethocach a bydd yn ffurfio tystiolaeth fwy cadarn os yw'r holl asiantaethau perthnasol yn ymwneud â'r fenter. Dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i ddwyn perswad ar adrannau Llywodraeth y DU i gefnogi'r cynllun peilot ehangaf posibl.

Gwerthusiad

30. Bydd trefn werthuso effeithiol a thrylwyr yn hanfodol i sicrhau y gellir deall y data a gynhyrchir a dylanwadu ar waith yn y maes hwn yn y dyfodol.

31. Bydd ennyn ymddiriedaeth y rhai sy'n gadael gofal sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot (ac mewn unrhyw grŵp rheoli) yn rhan hanfodol o'r broses werthuso, er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon rhannu eu profiadau'n llawn, yn ystod yr arbrawf ac ar ei ddiwedd. Mae'n bosibl iawn

⁷ Mick Antoniw AS, Cofnod y Trafodion, Senedd, 24 Tachwedd 2021 <https://record.senedd.cymru/CyfarfodLlawn/12498#C390141>

⁸ David Rutley, AS, Gweinidog Cyflenwi Lles, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Trawsgrifiad o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig C252, 8 Rhagfyr 2021. <https://committees.parliament.uk/oralevidence/3175/html/>

y bydd hyn yn haws os nad yw'r tîm gwerthuso yn rhan o'r llywodraeth, ac yn gallu meithrin perthynas hirdymor â'r cyfranogwyr.

32. Yn ystod ein trafodaeth, mae'r Pwyllgor wedi clywed llawer am gostau posibl Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Mae llawer llai o ddata yn ymwneud ag arbedion y gellid eu cynhyrchu. Mae'n hanfodol bod y broses werthuso hefyd yn ceisio dal y rhain.

33. Dylai cynllun peilot Llywodraeth Cymru gael ei gynllunio i ddatgelu tystiolaeth yn ddiduedd am effeithiolrwydd cynlluniau incwm sylfaenol. Dylai gynnwys gwaith ymchwil ansoddol a meintiol sy'n nodi canlyniadau cadarnhaol a negyddol, ac sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd cadarn, gan gynnwys unrhyw arbedion anuniongyrchol yn sgil llai o bwysau ar wasanaethau eraill. Bydd gwerthuso'r peilot yn allweddol i gyflwyno tystiolaeth gredadwy i gefnogi'r honiadau a wneir gan gefnogwyr a beirniaid Incwm Sylfaenol Cyffredinol fel ei gilydd.

34. Dylai effeithiau unrhyw gynllun peilot fynd y tu hwnt i fesurau economaidd syml a rhaid iddynt, o leiaf, gynnwys canlyniadau iechyd hefyd.

Argymhelliad 5. Dylai gwerthusiad y peilot:

- gael ei gynnal gan arbenigwyr annibynnol, sydd â phrofiad o weithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal a/neu bobl ifanc o gefndiroedd tebyg.
- cynnwys grŵp rheoli.
- fod yn barhaus yn ystod y cynllun peilot, ac ar ddiwedd y cynllun tair blynedd. Byddai'n fuddiol hefyd cynnwys opsiwn yn y contract gwerthuso ar gyfer dilyniant tymor hwy o'r hyn sy'n digwydd i gyfranogwyr yn y tymor hwy.
- ceisio dal unrhyw arbedion (neu gostau) anuniongyrchol sy'n cronni o ganlyniad i'r cynllun peilot.
- ystyried pob un o'r saith Nod Llesiant, yn benodol gan gynnwys iechyd meddwl yn nod Cymru Iachach.

4. Deunydd darllen ychwanegol

Darparodd y dogfennau isod dystiolaeth bellach a ystyriwyd gan y Pwyllgor wrth ddrafftio'r adroddiad hwn.

Dyfodol Teilwng i Gymru – incwm sylfaenol i bawb (PDF 1.5MB)

Autonomy, Tachwedd 2021

Incwm Sylfaenol i Wella Iechyd a Llesiant y Boblogaeth yng Nghymru?

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2021

Adroddiad Terfynol ar ddichonoldeb cynlluniau peilot Incwm Sylfaenol Dinasyddion yr Alban (PDF 2.1MB)

Grŵp Llywio Astudiaeth Dichonoldeb Incwm Sylfaenol Dinasyddion, Mehefin 2020

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
15 Tachwedd 2021	Jonathan Rhys Williams, Deisebydd Arweiniol/UBI Lab Cymru
29 Tachwedd 2021	Will Stronge, Cyfarwyddwr Ymchwil, Autonomy Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
29 Tachwedd 2021	Lydia Godden⁹, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Ewan Hilton Prif Swyddog Gweithredol Platfform James Radcliffe Pennaeth Materion Cyhoeddus Platfform

⁹ Gwahoddwyd Lydia Godden ar ran Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru. Mae hi hefyd yn gyd-sylfaenydd UBI Lab Youth ac UBI Lab Womxn ac yn aelod o UBI Lab Cymru.